

## **Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 – Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant**

### **Mae Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad wedi cael eu nodi isod:**

Argymhelliad 1 Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau Cadernid Meddwl a Busnes Pawb yn ystod gweddill y Senedd hon.

#### **Ymateb:**

Derbyn.

Mae gwella iechyd meddwl ein plant a'n pobl ifanc, ac atal hunanladdiad a hunan-niwed, yn dal yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i weithredu'r argymhellion fel y nodir yn ein hymatebion i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn deall bod gweithredu'r argymhellion eang yn rhaglen waith sylweddol, a bod angen cydbwysu hynny â gweithredu ein hymatebion i adroddiadau cysylltiedig eraill y Pwyllgor a'r ymrwymadau a nodir yn *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni*. Dylid cydnabod bod y rhaglen waith i gyflawni'r gwelliannau yn mynd y tu hwnt i'r tymor hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

### **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ysgrifenedig cyn diwedd y Senedd hon, gan fanylu ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion ein hadroddiad Busnes Pawb, a nodi amserlenni clir ar gyfer cyflawni unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill.

#### **Ymateb:**

Derbyn.

Byddwn ni'n darparu diweddariad ysgrifenedig erbyn diwedd cyfnod y Senedd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod effaith tymor byr a thymor hwy y pandemig ar iechyd meddwl yn ystyriaeth ganolog yn ei hymateb i'r pandemig a'r cynlluniau ar gyfer yr adferiad, a bod ei phrosesau penderfynu yn y maes hwn yn ymgysylltu â'r holl arbenigedd a thystiolaeth iechyd meddwl angenrheidiol. Gofynnwn am fanylion y strwythurau sydd ar waith i gefnogi hyn.

#### **Ymateb:**

Derbyn.

Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaethom symud yn gyflym (ym mis Mawrth 2020) i gynnull Grŵp Digwyddiadau Iechyd Meddwl y GIG/Llywodraeth Cymru (y Grŵp), i helpu gwasanaethau iechyd meddwl i reoli a darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r Grŵp hwn, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r GIG, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ers dechrau'r argyfwng. Yn bwysig iawn, mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys swyddogion o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i sicrhau bod penderfyniadau neu argymhellion y Grŵp wedi cael eu llywio, ac yn dal i gael eu llywio, gan y dystiolaeth ddiweddaraf.

I gefnogi gwaith y Grŵp, rydym yn parhau i gwrdd ddwywaith y mis ag arweinwyr Iechyd Meddwl y byrddau iechyd yng nghyswllt Covid-19 ac arweinwyr clinigol CAMHS, a hefyd yn cwrdd yn rheolaidd iawn â Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi darlun cyflawn i'r Grŵp o faterion yn ymwneud â gwasanaethau, pwysau, profiad defnyddwyr gwasanaeth a gwybodaeth ehangach.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y byddai *Bwrdd Cyflawni a Goruchwyllo Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i Gymru* yn cael ei sefydlu. Bydd y Bwrdd yn gwella'r cyd-drefnu ac yn cyflymu'r gwaith hwn, yn ogystal ag egluro rolau a chyfrifoldebau'n well, gan greu agwedd 'rheoli rhaglen' dynnach tuag at y trefniadau cyffredinol.

Yn bwysig iawn, bydd swyddogaethau'r bwrdd yn cynnwys holl strategaeth drawslywodraethol Llaw yn Llaw at Iechyd Meddwl, Siarad â fi 2 – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, a'r ymateb sydd ei angen ym maes iechyd meddwl ar gyfer ein hadferiad yn dilyn Covid-19.

Un o nodweddion cryf y Bwrdd fydd ei allu i ystyried y dystiolaeth ddadansoddol ac ehangach ddiweddaraf o'r mesurau sydd eu hangen i atal a chynnig cymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl ar lefel y boblogaeth, ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Felly bydd aelodau'r bwrdd yn cynnwys cydweithwyr ym maes gwybodaeth a dadansoddi, a bydd cysylltiad clir rhwng y bwrdd â'r byd academaidd er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn ystod y pandemig, ac ar ôl hynny, yn dal yn seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y Bwrdd yn cwrdd am y tro cyntaf ym mis Chwefror, a byddwn ni'n rhannu'r Cylch Gorchwyl â'r Pwyllgor ar ôl cytuno arno.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

#### **Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, ar unwaith, gyhoeddi rhestr wedi'i diweddarau o gyfrifoldebau gweinidogol i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg sy'n cynnwys atal hunanladdiad yn benodol.

**Ymateb:**

Derbyn.

Mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau bod atal hunanladdiad yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, ac y bydd llinell ar wahân yn cael ei chynnwys y tro nesaf y bydd y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion yn cael ei diweddarau er mwyn cadarnhau hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

## **Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol i sicrhau bod unrhyw effaith sy'n dod i'r amlwg ynghylch cyfraddau hunanladdiad a hunan-niwed yn cael ei monitro'n agos wrth inni fynd drwy'r pandemig. Rhaid bwrw ymlaen â gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar wyliadwriaeth data atal hunanladdiad, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth ar frys, a rhaid i Lywodraeth Cymru roi mwy o fanylion i'r Pwyllgor hwn ynghylch cylch gwaith y grŵp hwn a'r amserlenni y mae'n gweithio iddynt.

### **Ymateb:**

Derbyn.

Mae atal hunanladdiad a hunan-niwed yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn cymryd nifer o gamau i gefnogi hyn. Mae hyn yn seiliedig ar ein Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, 'Siarad â fi 2'.

Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaethom gomisiynu Uned Gyflawni'r GIG i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Athro Ann John, cadeirydd y Grŵp Cyngori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, i adolygu marwolaethau oherwydd hunanladdiad tebygol a digwyddiadau o hunan-niwed rhwng 2015 a 2020 ymysg pobl ifanc. Gwnaed hyn yn llwyr oherwydd pryderon am effaith bosibl Covid a'r cyfyngiadau ar bobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i barhau i gadw gwylidwriaeth fwy penodol ar hyn yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym hefyd yn parhau i adolygu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg er mwyn i hynny lywio ein dull gweithredu. Yn ôl papur diweddar yn y British Medical Journal, er ei bod yn dal yn rhy gynnar i ddod i gasgliad ynghylch beth fydd yr effaith gyffredinol ar gyfraddau hunanladdiad, mae'r data sydd ar gael yn cynnig rhywfaint o sicrwydd. Rydym ni'n canolbwyntio'n gadarn ar gymryd camau ataliol ar gyfer ffactorau risg sy'n debygol o gael eu dwysáu gan y pandemig. Er enghraifft, drwy gyflymu'r fenter gwella ansawdd straen trawmatig, a thrwy'r ystod o ymrwymadau trawslywodraethol a nodir yng nghynllun cyflawni diwygiedig Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i fynd i'r afael ag effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i'r trydydd sector gryfhau'r gefnogaeth, yn enwedig ar gyfer hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a chymorth gyda phroffedigaeth, ac wedi cryfhau trefniadau cyd-drefnu cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn gweithio gyda'i chydweithwyr yn y Cabinet i bwysleisio effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig, a'i effaith ar iechyd meddwl. Mae hyn yn adlewyrchu rôl camau trawslywodraethol i fynd i'r afael â'r ffactorau risg hynny a fydd yn effeithio ar iechyd meddwl, er enghraifft, dyledion, colli swydd neu faterion tai.

O ran cadw gwyliadwriaeth ar hunanladdiad mewn amser real, cytunwyd y bydd y grŵp presennol yn uno â grŵp Plismona i ffurfio Grŵp Prosiect Gwyliadwriaeth Amser Real ar y cyd ar gyfer iechyd a phlismona. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 21 Ionawr, a bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ein diweddariad ar adroddiad y Pwyllgor ynghylch Busnes Pawb. Er bod y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu, mae angen cydnabod bod sicrhau system wylidwriaeth amser real yn gymhleth ac yn sensitif. Mae'n gofyn am gytundeb ac ymrwymiad ar draws nifer o asiantaethau, a bydd angen i amserlenni adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, mae fforymau rhanbarthol amlasiantaethol yn bodoli'n barod sy'n rhannu data ynghylch amheuaeth o hunanladdiad, ac yn dynodi themâu allweddol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n lleol fel sail i gamau atal ar y cyd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

## **Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau brys i ddeall pam mae cymaint o ddatgysylltiad rhwng sicrwydd byrddau iechyd ynghylch darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig, a'r problemau sylweddol wrth geisio cael mynediad at wasanaethau sy'n cael eu hadrodd gan gleifion a gwasanaethau rheng flaen. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor o'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau cadernid trefniadau adrodd ac atebolrwydd rhwng byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru. At hynny, dylai ddarparu tystiolaeth y bydd mynediad 24/7 at ofal argyfwng sy'n briodol i oedran y defnyddiwr ar gael yn gyson ledled Cymru yn ystod y pandemig.

## **Ymateb:**

Derbyn mewn egwyddor.

Yn ystod y cyfnod pan roddwyd y gorau i adrodd yn ffurfiol ar berfformiad oherwydd pwysau'r pandemig, rhoesom drefniadau cadarn ar waith i sicrhau gwybodaeth gan y Byrddau Iechyd Lleol am y gwasanaethau iechyd meddwl 'hanfodol' a oedd ar gael. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod y sicrwydd a gawn gan fyrddau iechyd ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael yn gallu bod yn wahanol weithiau i'r adborth gan bartneriaid am brofiad defnyddwyr gwasanaeth unigol, ac mae angen ystyried hynny ar y cyd ac o fewn y cyd-destun ehangach. Yn gyntaf, rhaid cydnabod bod gwasanaethau'r GIG wedi bod, ac yn dal i fod, o dan bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen ac mae'n rhaid disgwyl y bydd – ar adegau – oedi neu anhawster wrth geisio cael gafael ar wasanaethau oherwydd amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys y cyfyngiadau, newidiadau i fodolau gwasanaeth, lefelau staffio a chymhlethdod anghenion rhai cleifion. Mae angen ystyried hyn hefyd yng nghyd-destun nifer y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. O ran graddfa yn 2019-20, roedd bron i 7000 o bobl wedi cael cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Gofal

Sylfaenol Lleol neu CAMHS arbenigol bob mis. Rydym yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â'n partneriaid yn y trydydd sector i sicrhau ein bod ni'n ystyried profiad defnyddwyr gwasanaeth ochr yn ochr â pherfformiad a gwybodaeth arall a dderbynnir gan fyrddau iechyd.

Rwyf hefyd wedi gofyn i bob bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth glir a chyson i helpu pobl i gael gafael ar y cymorth mwyaf priodol ar gyfer iechyd meddwl, yn enwedig os oes angen newid modelau gwasanaeth oherwydd y cyfyngiadau. Rwy'n falch bod yr wybodaeth hon bellach ar gael ar wefan pob bwrdd iechyd.

Rydym hefyd wedi gweithio i sicrhau bod cefnogaeth genedlaethol ar gyfer materion iechyd meddwl lefel isel yn fwy hygyrch, ac mae'r wybodaeth hon bellach wedi'i chynnwys ar wefan 111: <https://111.wales.nhs.uk/encyclopaedia/m/article/mentalhealth?locale=cy>.

O ran cadernid atebolrwydd, cafodd y broses adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ei hailgyflwyno ym mis Tachwedd 2020, ac mae byrddau iechyd yn cael eu dal yn atebol drwy'r broses hon. Mae amrywiaeth o systemau eraill yn cael eu defnyddio i ddal Byrddau Iechyd Lleol yn atebol am berfformiad, ac mae hynny'n cynnwys iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys proses y Tîm Gweithredol ar y Cyd, sydd o dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr GIG Cymru, ynghyd â byrddau Cyflawni a Pherfformiad. Yn ystod 2020 cafodd cyfarfodydd chwe-misol, cyn y Tîm Gweithredol ar y Cyd, â holl arweinwyr iechyd meddwl y Byrddau Iechyd Lleol eu cyflwyno gan swyddogion polisi iechyd meddwl, er mwyn trafod perfformiad a materion eraill. Bydd *Bwrdd Cyflawni a Goruchwyllo Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i Gymru*, a fydd yn cwrdd am y tro cyntaf ym mis Chwefror, yn ychwanegu gwerth at y systemau hyn sydd eisoes yn bodoli, ac yn darparu swyddogaeth rheoli rhaglen gryfach ar gyfer y rhaglen waith iechyd meddwl drwyddi draw.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gwella gofal mewn argyfwng, gyda chymorth £3.4 miliwn o gyllid dros y 3 blynedd diwethaf (£1m yn 2018-19, £1.4m yn 2019-20 a £1m yn 20/21) a buddsoddiad arfaethedig pellach o £2.4m yn 21/22. Bydd gwella gofal mewn argyfwng yn parhau'n flaenoriaeth am y tair blynedd nesaf, fel y nodir yn *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni: 2019-22*. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi amrywiaeth o dulliau gweithredu, gan gynnwys profi modelau brysbennu dros y ffôn, cludiant a chaffis argyfwng. Mae'r hyn a ddysgir o'r dulliau gweithredu hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio ein dull gweithredu tymor hwy gyda phartneriaid.

Comisiynwyd yr Adolygiad o Fynediad Brys yng nghyswllt iechyd meddwl er mwyn deall yn well beth yw anghenion pobl mewn argyfwng. Er bod yr adolygiad amlasiantaeth wedi cael ei ohirio oherwydd Covid-19, daeth yr adroddiad terfynol i law ar 22 Hydref. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at yr ystod eang o anghenion sydd gan bobl mewn argyfwng, gan gynnwys materion cymdeithasol a llesiant. Mae'n tynnu sylw at yr angen am lwybr amlasiantaeth ar gyfer pobl o bob oed, ac mae is-grŵp wedi cael ei gynnull i gyd-drefnu'r gwaith hwn. Cyfarfu'r is-grŵp am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr, a chyfarfu eto ar 21 Ionawr. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau yn y GIG, er enghraifft, i ddatblygu llwybr iechyd meddwl drwy 111, a byddwn ni'n parhau i flaenoriaethu gofal mewn argyfwng yng Nghynllun Cyflawni diwygiedig *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

### **Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu dadflaenoriaethu yn ystod y pandemig, ac wrth adfer yn ei sgil. Yn unol ag Argymhelliad 1, bydd gweithredu'r camau y gofynnir amdanynt yn yr adroddiadau Cadernid Meddwl a Busnes Pawb yn ysgogi mwy o gydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Rydym yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru yn arbennig at Argymhelliad 6 yn Busnes Pawb.

#### **Ymateb:**

Derbyn.

Rydym yn parhau i ystyried gwasanaethau iechyd meddwl yn wasanaethau 'hanfodol'. Nid yw hyn wedi newid, ac ni fydd yn newid yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod gwasanaethau iechyd meddwl – yn yr un modd â gweddill y GIG a'r system gofal cymdeithasol ar hyn o bryd – o dan bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen oherwydd Covid 19, ac mae swyddogion yn parhau i drafod â chydweithwyr yn y GIG beth yw'r ffordd orau o gynnal gwasanaethau iechyd meddwl ar hyn o bryd.

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chynnwys mewn diweddariadau sydd wedi'u trefnu i'r Pwyllgor ynghylch argymhellion Cadernid Meddwl a Busnes Pawb.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

### **Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y set ddata graidd iechyd meddwl genedlaethol safonol yn cael ei chyflwyno'n llawn erbyn diwedd 2021.

#### **Ymateb:**

Derbyn mewn egwyddor

Yn *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni: 2019-2022*, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a phartneriaid i weithredu set ddata graidd sydd wedi'i safoni'n genedlaethol ar gyfer iechyd meddwl ac anabledd dysgu, a bydd system gyfrifiadurol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r set ddata. Er ein bod yn bwriadu sicrhau bod set ddata y cytunwyd arni ar waith erbyn diwedd 2021, bydd y gwaith o'i chyflwyno yn parhau drwy gydol 2022.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

### **Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus fod mor rhagweithiol â phosibl wrth gyfeirio'r cyhoedd at ffynonellau cymorth iechyd meddwl ac adnoddau adeiladu gwytnwch, a gwasanaethau cynghori perthnasol (megis cyngor ariannol). Mae hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb cyfyngiadau symud pellach posibl a chyfnod hir o ansicrwydd economaidd.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael ar lefel genedlaethol a lleol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant wedi bod yn flaenoriaeth allweddol. Yn ystod y pandemig, rydym wedi darparu £2.7m o gyllid ychwanegol i gefnogi cymorth haen 0/1 yn y gymuned. Mae hynny wedi cynnwys cyllid ar gyfer cynlluniau fel Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL, Silvercloud, Bywyd ACTif a nifer o brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Gyllid Adfer ar gyfer Iechyd Meddwl. Rydym hefyd wedi sicrhau ein bod ni wedi codi ymwybyddiaeth o'r cymorth hwn wrth roi cyngor a gwybodaeth am Covid-19 drwy sôn amdano wrth gyfathrebu â'r bobl hynny sydd ar y rhestr warchod, ac yn y llythyrau a anfonwyd at bob aelwyd yng Nghymru.

Ym mis Hydref 2020 roeddem hefyd wedi cyhoeddi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni: 2019-22 ar ei newydd wedd, er mwyn ystyried yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth, a'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r cynllun ar ei newydd wedd yn enwi'r elfennau hynny sy'n ffactorau diogelu pwysig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae cymorth a gwytnwch yn yr elfennau hyn yn rhan hanfodol o ymateb ar draws y system i leihau effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar lesiant, a lleihau'r angen i droi at wasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddyledion, sydd wedi cael ei sefydlu i argymhell polisiau a fydd yn helpu pobl ledled Cymru sy'n ei chael yn anodd cynnal eu hymrwymiaadau ariannol i ddod o hyd i lwybrau cynaliadwy allan o ddyled. Mae'r Grŵp yn ystyried sut i gryfhau'r cysylltiad rhwng gwasanaethau cyngor ar ddyledion/rheoli arian a'r amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth sydd ar gael ar gyfer iechyd meddwl.

Rydym hefyd wedi gofyn i bob bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth glir a chyson i helpu pobl i gael gfael ar y cymorth mwyaf priodol ar gyfer iechyd meddwl, yn enwedig os bu'n rhaid newid modelau gwasanaeth oherwydd y cyfyngiadau. Rwy'n falch bod yr wybodaeth hon bellach ar gael ar wefan pob bwrdd iechyd.

Rhwng 28 Hydref a 24 Tachwedd, roeddem wedi cynnal ymgyrch ddwyieithog a oedd yn cynnwys montage ffilm o bobl ifanc o bob cwr o Gymru yn ateb y cwestiwn "sut wyt ti'n teimlo?", ac yn cyfeirio at CALL. Cynhaliwyd yr ymgyrch ar TikTok, Instagram, Snapchat a Facebook (roedd yr ymgyrch ar Facebook wedi'i chyfeirio fwy at rieni), a chyrraeddodd yr ymgyrch dros 500,000 o bobl. Roedd yr ymgyrch ar Facebook/Instagram wedi arwain at 13,657 o glicadau drwodd i'r wefan. Mae hynny'n well na chyfradd clicio drwodd safonol y diwydiant. Y nod ar Snapchat oedd cael 1,600 "sweip i fyny" i'r wefan, ac roeddem wedi llwyddo i gael cyfanswm o 6,609. Roedd yr ymgyrch ar TikTok wedi cyrraedd 319,522 o bobl, ac wedi arwain at ychydig llai na 10,000 o glicadau drwodd i'r wefan.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

## **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal profedigaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar waith i ddiwallu anghenion cynyddol y rhai sydd mewn profedigaeth yn ystod y pandemig hwn. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â gwaith y grŵp, gan gynnwys amserlenni a sut y bydd yn ystyried yr heriau yn sgil y pandemig.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r pandemig wedi dangos – efallai'n fwy clir nag unrhyw ddigwyddiad diweddar – graddfa a chymhlethdod profedigaeth, a pha mor bwysig ydyw bod y rheini sydd wedi cael profedigaeth yn cael gofal da. Mae'r profiad hwn wedi cyflymu pethau ac wedi dylanwadu ar lawer o fanylion y gwaith i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer profedigaeth.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo'n dda, ac mae'n cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth. Mae'r fframwaith drafft yn cynnwys egwyddorion craidd, safonau gofynnol ac amrywiaeth o gamau gweithredu y mae angen i'r Grŵp Llywio eu cymryd i gefnogi'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r fframwaith ar lefel ranbarthol a lleol. Hefyd, mae'n cydnabod y bydd effeithiau hirdymor yn sgil y pandemig, ac yn cynnwys adran am ddysgu gwersi yn sgil Covid-19.

Mae dau aelod o'r Grŵp Llywio o Brifysgol Caerdydd yn arwain astudiaeth hydredol barhaus ledled y DU sy'n ymchwilio i brofiadau o brofedigaeth, anghenion cymorth a'r cymorth a ddarperir yn ystod y pandemig, ac maen nhw'n adrodd yn ôl ar ganfyddiadau allweddol mewn 'amser real' i'r Grŵp. (Ewch i wefan yr astudiaeth [www.covidbereavement.com](http://www.covidbereavement.com)). Bydd y Grŵp hefyd yn cadw'r mater hwn ar yr agenda wrth fonitro'r broses o roi'r fframwaith ar waith ar ôl Covid-19.

Ar ben hynny, bydd y meini prawf sy'n cael eu datblygu gan y Grŵp Llywio ar gyfer y £1m ychwanegol o gymorth ar gyfer profedigaeth, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2021 ymlaen, yn adlewyrchu pwysigrwydd dysgu gwersi yn sgil Covid-19. Bydd gwersi hefyd yn cael eu dysgu o'r ffordd y defnyddiwyd y £900k o gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'n darparwyr gwasanaethau profedigaeth a hosbisau drwy gydol y pandemig, er mwyn cynyddu lefel y cymorth ar gyfer profedigaeth.

Bydd y fframwaith drafft yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori cyn diwedd tymor y Senedd hon.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

## **Argymhelliad 11**



Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gwasanaethau iechyd meddwl o bell, a gefnogir yn ddigidol a gyflwynir o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu gwerthuso fel mater o flaenoriaeth i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn ymatebol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Rhaid i leisiau defnyddwyr gwasanaethau fod yn ganolog i unrhyw werthusiad o'r fath.

#### **Ymateb: Derbyn.**

Mae'r GIG hefyd yn cydnabod yr angen i ddysgu o'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau digidol, ac mae hyn yn rhan annatod o'i gynllun gwaith presennol. Er enghraifft, mewn ymateb i argymhelliad 9, roeddem wedi tynnu sylw at SilverCloud fel un o'r adnoddau digidol sy'n cael ei ddarparu. Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol gan Tec Cymru, a fydd yn adrodd yn ôl yn 2021 er mwyn llywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

#### **Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ddangos ymrwymiad cryf i wella iechyd meddwl y cyhoedd yng Nghymru, gyda thystiolaeth glir o ddull traws-lywodraethol tuag at iechyd meddwl a llesiant a sut mae'n mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl a llesiant.

#### **Ymateb: Derbyn.**

Yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22, rydym wedi clustnodi £42m ychwanegol i gefnogi gwasanaethau Iechyd Meddwl. Ar ben hynny, gellir gweld buddsoddiadau eraill ar draws y Llywodraeth sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl, yn unol â'n dull o atal a diogelu iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad at fannau gwyrdd, fel y nodir yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

#### **Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ganfod yr anghenion cymorth iechyd meddwl a llesiant ymhlith pawb a gymerodd ran mewn gwaith rheng flaen allweddol, ac i sicrhau bod cymorth priodol a hygyrch ar waith fel mater o flaenoriaeth. Mae'n rhaid sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cymorth i staff rheng flaen, a rhaid iddo fod ar gael yn y tymor hwy.

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru yn sicrhau bod pob meddyg ym maes Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd yn gallu cael mynediad at Gymdeithas Seicotherapi Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain (BABCP) yn eu hardal. Gall

meddygon gyfeirio eu hunain a chael eu hasesu gan feddyg cynghorol, sydd wedi cymhwyso ym maes iechyd meddygon, cyn cael eu cyfeirio ar gyfer cwnsela wyneb yn wyneb. Prifysgol Caerdydd sydd wedi cael y contract i ddarparu'r gwasanaeth.

Cafodd cyllid Llywodraeth y DU – a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth 2020 – ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o fesurau i helpu'r GIG, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau gyda'r gwaith o baratoi ac ymateb i COVID-19, a chytunwyd ar gyllid ychwanegol o £1.047m ar gyfer 2020-21 i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol, i uwchraddio'r cymorth seicolegol ac i ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys **holl weithlu'r GIG**. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyfarnu yn awr er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau yn 2021-22, gan ymestyn y model sydd newydd gael ei ddatblygu i'r Sector Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd risgiau sylweddol, ac mae risgiau sylweddol o hyd, ynghyd â nifer o ffactorau seicolegol a fyddai'n gallu dod i'r amlwg a chael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y gweithlu. Yn sgil ehangu lechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru, mae gwasanaeth darparwr sefydledig wedi cael ei greu, sydd wedi dangos ei fod yn ddibynadwy, yn ymatebol ac y gellir ymddiried ynddo.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol o fewn undebau llafur a chyflogwyr GIG Cymru i gynnig darpariaeth llesiant amlhaen ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn ychwanegol at ehangu'r gwasanaeth iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol; mae hyn yn cynnwys llinell gymorth Samariaid gyfrinachol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd ar gael yn arbennig i'r holl weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru, ynghyd â nifer o apiau ac adnoddau iechyd a llesiant sydd ar gael am ddim, fel Mind, CALL, Sleepio a Daylight ynghyd â SilverCloud.

Mae modd cael gafael ar y lluoedd o adnoddau cenedlaethol a lleol sydd ar gael i staff drwy restr ddefnyddiol ar dudalennau gwe AaGIC, sydd hefyd yn cyfeirio unigolion i'w helpu i ddod o hyd i'r math a'r lefel briodol o gymorth iddyn nhw eu hunain, boed hynny'n ymyriad un i un uniongyrchol, yn ymyriad dan arweiniad neu'n ymyriad sy'n cael ei arwain gan yr unigolyn. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) i sefydliadau'r GIG, sy'n egluro sut mae disgwyl iddyn nhw gefnogi iechyd a llesiant eu staff yn ystod pandemig COVID-19.

Mae gwybodaeth reoli ddiennw, sy'n cael ei chasglu gan nifer o'r darpariaethau sydd eisoes ar waith, yn ein helpu i ddysgu ac i addasu'r gwasanaethau llesiant sydd ar gael i'r staff wrth i ni barhau i weithio gyda phartneriaid i wneud y gweithlu'n gryfach, er mwyn i ni allu cynnal ymdrechion eithriadol staff y GIG, y gweithlu gofal cymdeithasol a phawb sydd wedi ateb yr alwad i ymuno â'r gwasanaeth yn y frwydr yn erbyn y clefyd hwn.

Yn dilyn adolygiad o wasanaethau lechyd Galwedigaethol ledled Cymru, a gomisiynwyd gan fyrdau iechyd, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried ateb priodol ar gyfer Cymru o safbwynt lechyd Galwedigaethol, ar sail argymhellion yr adolygiad. Rwy'n deall bod grŵp partneriaeth wedi cael ei sefydlu i edrych ar y gwaith hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r grŵp wedi cael ei ohirio tra bo gwaith paratoi'n cael ei wneud.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim yn ychwanegol.**

### **Argymhelliad 14**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau arloesol tymor hwy i hwyluso ymweliadau dan do â chartrefi gofal.

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Rheoli Coronafeirws gan Lywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau ar beth mae pob Lefel Rhybudd yn ei olygu ar gyfer ymweliad â chartrefi gofal. Mae'r Cynllun ar gael yn:

<https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-i-oedolion-a-phlant>.

O dan Lefel Rhybudd 4 sydd ar waith ar hyn o bryd, caniateir ymweliadau, lle mae'r risgiau wedi cael eu hasesu, o fewn uned ymwelwyr neu strwythur tebyg (sy'n cynnwys rhwystr ffisegol rhwng yr ymwelydd a'r preswilydd) ar gyfer ymwelwyr penodol. Bydd hyn yn sicrhau bod ymweliadau ag anwyliaid yn gallu parhau drwy gyfnod y gaeaf, pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny. Mae ymweliadau dan do mewn amgylchiadau eithriadol – gan gynnwys diwedd oes, ond nid dim ond hynny – yn dal i gael eu caniatáu o dan Rybudd Lefel 4, fel sydd wedi bod yn wir drwy gydol y pandemig.

Mae cynllun peilot Llywodraeth Cymru i ddarparu unedau ymwelwyr dros dro i gartrefi gofal i oedolion yn parhau, a chyflwynwyd cyfanswm o 69 uned ymwelwyr i gartrefi gofal cyn y Nadolig. Rydym bellach wedi sicrhau archeb ychwanegol o unedau ymwelwyr gan gyflenwr, ac rydym yn disgwyl gallu darparu cyfanswm o 101 o unedau ymwelwyr drwy'r cynllun peilot hwn, yn unol â'i nod.

Byddwn yn casglu adborth gan y cartrefi hynny sy'n cael uned fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynllun peilot – bydd hyn yn helpu i lywio ein camau nesaf o ran parhau i gynorthwyo cartrefi gofal er mwyn sicrhau ymweliadau diogel.

Ochr yn ochr â'r cynllun peilot, dyrannodd Llywodraeth Cymru hyd at £1 miliwn o gyllid yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer darparwyr sydd wedi caffael eu hunedau ymweld eu hunain, y tu hwnt i gynllun peilot Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi darparwyr i hawlio ad-daliad am gostau llogi ymlaen llaw, ac unrhyw gostau yswiriant ychwanegol ar gyfer unedau ymwelwyr maent wedi eu caffael eu hunain. Lanswyd y cynllun ar 15 Rhagfyr, ac mae swyddogion yn adolygu hawliadau gan ddarparwyr ar hyn o bryd. Bydd arian yn cael ei dalu i gartrefi drwy system bresennol Cronfa Galedi Llywodraeth Leol, ochr yn ochr â hawliadau presennol ar gyfer y cynnydd cenedlaethol ac unrhyw fylchau.

Er bod cyngor iechyd y cyhoedd yn allweddol i lywio ein polisiâu ymweld, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd safbwyntiau pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal o ran llywio ein dull gweithredu. Fel rhan o elfen llesiant 'preswylwyr cartrefi gofal' y cynllun

gweithredu cartrefi gofal, rydym wedi gofyn i Age Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru a Voices from Care ofyn i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal beth yn benodol sydd wedi helpu eu llesiant yn ystod y pandemig. Bydd unrhyw adborth a ddaw i law yn ystod y gwaith hwn sy'n ymwneud â threfniadau ymweld yn cael ei ystyried wrth i ni barhau i adolygu ein polisi ymweld.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.

### **Argymhelliad 15**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad 'Cadernid Meddwl' ar y cyflymder angenrheidiol i sicrhau bod sylfeini'r dull system gyfan y gofynnir amdano ar waith erbyn diwedd y Senedd hon.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Darllenwch yr ymateb i Argymhelliad 1. **Goblygiadau Ariannol** – Dim yn ychwanegol.